



Mark Noakes (CBSC), Yr Arweinydd y Cyngorydd Philippa Marsden, Shaun Couzens (CBSC) a Mark Painter (Llanmoor) yn yr achlysur hanesyddol o dorri'r tir

Gwaith yn dechrau ar y tai cyngor newydd cyntaf

Mae'r gwaith wedi dechrau ar adeiladu cartrefi cyntaf y Cyngor ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ers 18 mlynedd. Dyma'r cyntaf i'w hadeiladu fel rhan o raglen uchelgeisiol a fydd yn gweld cartrefi cyngor newydd yn cael eu datblygu ledled y Fwrdeistref Sirol.

Caiff y cartrefi eu datblygu gan Gartrefi Llanmoor ym Maes Bedwellte, Aberbargod. Bydd y datblygiad 55 o gartrefi yn cynnwys 6 chartref rhent cymdeithasol a fydd yn eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac yn cael eu rheoli gennym. Yn ogystal, bydd y safle hefyd yn cynnwys 2 eiddo perchentyaeth cost isel; gan gynnig cyfleoedd i brynwyr tro cyntaf brynu eu cartref eu hunain.

parhad ar dudalen 2



EICH CARTREFI, EICH DYFODOL
YOUR HOMES, YOUR FUTURE

Mae cartrefi fforddiadwy ar y safle yn cael eu darparu drwy gytundeb Adran 106 rhwng y Cyngor a Llanmoor, sy'n anelu at ddod â buddiannau i'r gymuned leol o ganlyniad i'r datblygiad. Bydd Llanmoor hefyd yn creu mannau agored, gan gadw nifer presennol y coed yn yr ardaloedd hynny ac adeiladu ardal chwarae leol. Meddai'r Cynghorydd Philippa Marsden, Arweinydd Cyngor Caerffili, "Mae hon yn garreg filltir bwysig i ni wrth gyflawni ein

hymrwymiad i ddechrau rhaglen o adeiladu tai cyngor newydd yn y Fwrdeistref Sirol. Rydym yn ddiolchgar i Lanmoor am weithio mewn partneriaeth â ni i ddarparu'r cartrefi cyngor newydd hyn o ansawdd uchel a fydd yn helpu gyda'n rhaglen ddatblygu i ateb y galw lleol am dai fforddiadwy. Edrychaf ymlaen at ymweld â'r safle eto i weld y gwaith adeiladu yn mynd rhagddo ac i groesawu'r teuluoedd cyntaf a fydd yn galw'r eiddo hyn yn 'gartref'."

Bydd cymunedau yn ardaloedd Cynghorau Caerffili a Blaenau Gwent yn cael cymorth ychwanegol wrth i Gyfrifiad 2021 nesáu



Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi penodi Rheolwr Ymgysylltu ar gyfer y Cyfrifiad i gefnogi trigolion Caerffili a Blaenau Gwent ac i helpu sicrhau llwyddiant Cyfrifiad 2021.

Bydd Alan Cotterill, Rheolwr Ymgysylltu Cyfrifiad yr ardal, yn helpu sefydliadau, elusennau, grwpiau ffydd ac arweinwyr cymunedol yn y siroedd i godi ymwybyddiaeth o'r cyfrifiad a phwysigrwydd cymryd rhan. Mae'r cyfrifiad yn arolwg unwaith mewn degawd sy'n rhoi cipolwg o aelwydydd yng Nghymru a Lloegr, gan helpu cynllunio ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus.

Gofynnir i bawb ledled Cymru a Lloegr gymryd rhan a bydd y wybodaeth y mae pobl yn ei rhoi yn penderfynu sut y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u hariannu. Yn y pen draw, mae'n sicrhau bod arian yn cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau brys, gofal iechyd, lleoedd mewn ysgolion a gwasanaethau hanfodol eraill. Am y tro cyntaf, bydd y cyfrifiad yn cael ei gynnal yn bennaf ar-lein, gan ei gwneud yn hawdd i'r rhan fwyaf o bobl lenwi'r holiadur ar unrhyw ddyfais – boed hynny'n gyfrifiadur, ffôn symudol neu lechen.

Bydd Canolfannau Cymorth y Cyfrifiad Lleol yn cynnig cymorth, tra bydd holiaduron papur ar gael i'r rhai sydd eu hangen. Bydd holl staff y cyfrifiad yn gweithredu yn unol â chanllawiau diweddaraf y Llywodraeth ar COVID-19.

Bydd Cyfrifiad 2021 yn cynnwys cwestiwn newydd ar gyn-filwyr Lluedd Arfog y DU, yn ogystal â chwestiynau gwirfoddol, i'r rhai 16 oed a hŷn, ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd. Cynhelir y cyfrifiad ar 21 Mawrth 2021. Er y bydd canlyniadau ar gael y flwyddyn ganlynol, bydd yr holl gofnodion personol dan glo am 100 mlynedd yn ddiogel ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [cyfrifiad.gov.uk](https://www.cyfrifiad.gov.uk)

I gysylltu â'ch Rheolwr Ymgysylltu Cyfrifiad Lleol, cysylltwch ag: Alan Cotterill -

✉ alan.cotterill88@field.census.gov.uk neu dilynwch [Facebook](https://www.facebook.com/censusgwent) [Instagram](https://www.instagram.com/censusgwent) [@censusgwent](https://twitter.com/censusgwent) ar Twitter neu Instagram

Safon Ansawdd Tai Cymru Yr wybodaeth ddiweddaraf

Cyn dechrau pandemig COVID-19 roeddem yn dod i ben â chwblhau rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), sef gwaith mewnol ac allanol i gartrefi, ym mis Mehefin 2020. O'r holl gartrefi sy'n eiddo i'r Cyngor yn y Fwrdeistref Sirol, mae dros 98% yn cydymffurfio â'r safon ar hyn o bryd.

O ganlyniad i'r tarfu a'r cyfyngiadau a achoswyd gan y pandemig, estynnodd Llywodraeth Cymru y dyddiad cau i gwblhau'r rhaglen o fis Rhagfyr 2020 i fis Rhagfyr 2021. Arweiniodd y cyfyngiadau symud Haen 4 diweddaraf at atal yr holl waith mewnol, gan gynnwys ceginau, ystafelloedd ymolchi, ailweirio trydanol ac uwchraddio gwres canolog nwy. Mae gwaith allanol wedi parhau yn ystod y cyfnod hwn, ond yn arafach o lawer yn unol â systemau gwaith diogel manwl ac asesiadau risg.

Gyda rhaglen frechu COVID-19 yn mynd rhagddi a'r lleihad yn niferoedd yr achosion

positif, y gobaith yw y gallwn gwblhau ein rhaglen SATC erbyn mis Awst 2021. Fodd bynnag, diogelwch tenantiaid, staff a chontractwyr yw ein prif flaenoriaeth o hyd sy'n golygu bod gwaith SATC yn cymryd llawer mwy o amser i'w gwblhau nag arfer, wrth i'r pandemig barhau. I'r ychydig aelwydydd hynny yr effeithir arnynt, gwerthfawrogi eich amynedd a'ch dealltwriaeth barhaus yn fawr.



Dinasyddion yr UE yn gwneud cais i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog

Os oeddech chi'n ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd (UE), yn byw yn y Deyrnas Unedig (DU) erbyn 31 Rhagfyr 2020, mae angen i chi ac aelodau o'ch teulu (gan gynnwys dinasyddion y tu allan i'r UE) wneud cais i Gynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE i barhau i fyw, gweithio ac astudio yn y DU ar ôl 30 Mehefin 2021.

Mae angen i chi wneud cais hyd yn oed os ydych wedi byw yn y DU ers blynyddoedd lawer neu os oes gennych ddogfen breswyllo barhaol. Nid oes angen i chi wneud cais os oes gennych ganiatâd amhenodol i aros neu ddod i'r wlad, neu os ydych yn ddinesydd Gwyddelig, ond gallwch os dymunwch.

Mae'r cais ar-lein yn gwirio pwy ydych chi a'ch preswylad yn y DU ac yn gofyn i chi ddatgan unrhyw euogfarnau troseddol. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 30 Mehefin 2021.

Am ragor o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/settled-status-eu-citizens-families**





I archebu prawf, cysylltwch â 119 neu ewch i [http](http://www.llyw.cymru/cael-prawf-coronafeirws-covid-19)

Profi

Mae'r Cyngor yn cefnogi Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i ddarparu cyfleusterau profi a brechu COVID-19 ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

Yn ogystal ag unedau profi symudol, mae safle profi lleol cyntaf y rhanbarth hefyd yn weithredol yn Rhymni. Mae'r safle profi lleol yn gyfleuster profi coronafeirws galw i mewn ac mae'n rhan o ymgyrch y Llywodraeth i wella'r broses o ddarparu profion y coronafeirws i gymunedau.

Os oes gennych symptomau'r coronafeirws, waeth pa mor ysgafn, cysylltwch â Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a fydd yn archebu prawf i chi mewn lleoliad sy'n gyfleus ac yn briodol i chi.

Profi, Orlhain a Diogelu

Os bydd gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu Gwent yn cysylltu â chi, y cyngor fydd i chi hunanynysu.

Os ydych chi wedi profi'n bositif am COVID-19, gofynnir i chi hefyd ble rydych chi wedi bod a phwy rydych chi wedi bod mewn cysylltiad agos â nhw. Bydd hyn yn helpu'r tîm i gysylltu ag unrhyw un a allai fod wedi dal y feirws gennych.

Mae ynysu yn eich atal rhag rhoi'r feirws i'ch ffrindiau a'ch teulu, gan leihau'r pwysau ar y GIG ac achub bywydau.

I archebu prawf, cysylltwch â 119 neu ewch i:
<https://llyw.cymru/cael-prawf-coronafeirws-covid-19>

Brechu

Mae Canolfan Hamdden Trecelyn yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd fel canolfan brechu torfol gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan, i helpu cynyddu capasiti a sicrhau bod cynifer o breswylwyr cymwys â phosibl yn gallu cael y brechlyn newydd. Mae'r safle mwy yn disodli adeilad Tŷ Penallta, a ddefnyddiwyd yn flaenorol fel canolfan brechu.

Dylech ddisgwyl eich gwahoddiad am eich brechlyn; bydd yr apwyntiadau'n dod yn uniongyrchol gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Os oes gennych unrhyw broblemau o ran mynd i'ch apwyntiad, neu os nad yw'r lleoliad a gynigir yn gyfleus, cysylltwch â'r Bwrdd Iechyd i drafod.

Coronafeirws (COVID-19) Safleoedd Profi Lleol

Rhymni, Caerffili

Cyn safle maes parcio Aldi,
Old Brewery Lane NP22 5EZ

AR AGOR NAWR RHWNG:
8am ac 8pm 7 diwrnod yr wythnos

Oes gennych chi symptomau COVID-19?



Archebwch prawf COVID-19 am ddim heddiw.

Ffoniwch 119 neu ewch i:
www.llyw.cymru/coronafeirws



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board



Gwybodaeth


[s://llyw.cymru/cael-prawf-coronafeirws-covid-19](https://llyw.cymru/cael-prawf-coronafeirws-covid-19)

EIN HYMATEB I'R PANDEMIG

Mae Staff Cartrefi Caerffili wedi ymateb i'r her drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf; yn ogystal â pharhau i ddarparu gwasanaethau bob dydd i denantiaid, cafodd llawer eu hadleoli i gefnogi meysydd allweddol eraill yn ymateb y Cyngor, megis y fenter dosbarthu Prydau Ysgol am Ddim i gartrefi a'r cynllun Ymateb Cymunedol i gefnogi'r preswylwyr mwyaf agored i niwed.

Ymateb Atgyweirio

Tai Cyngor Caerffili
i Coronafeirws - Y Rhifau:



Ymateb Tai

Cyngor Caerffili
i Coronafeirws - Y Rhifau:



Adolygiad rhent a fforddiadwyedd

Diolch i bawb a roddodd eu barn ar rent a fforddiadwyedd drwy gwblhau arolwg y llynedd.

Cawsom dros 235 o ymatebion ac mae enillydd Iwcus wedi derbyn taleb £50 Love 2 Shop.



Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i landlordiaid osod polisi rhent a thaliadau gwasanaethau i sicrhau bod tai cymdeithasol yn aros yn fforddiadwy ar gyfer tenantiaid presennol a thenantiaid y dyfodol. Mae hyn yn golygu bod angen i ni ystyried bob blwyddyn a yw ein rhent yn werth am arian ac a yw'n fforddiadwy i denantiaid, cyn i ni ystyried unrhyw godiadau rhent.

Ar 10 Chwefror cyfarfu Cabinet y Cyngor o bell i ystyried adborth o'r arolwg ac i benderfynu ar y cynnydd rhent blyneddol ar gyfer 2021/22. Cytunwyd ar gynnydd o 1.5%, sef yr isaf ers nifer o flynyddoedd; gyda chynnydd blyneddol cyfartalog dros y 7 mlynedd diwethaf o 3.33%.

Dywedodd y Cyngorydd Lisa Phipps, Aelod Cabinet y Cyngor dros Dai ac Eiddo, "Rydym yn deall y bydd unrhyw gynnydd mewn rhent yn bryder, yn enwedig yn ystod y pandemig presennol, ac mae gennym ystod o gymorth ar gael i denantiaid sy'n profi anawsterau ariannol. Os na chynyddir rhenti'n flynyddol, mae hyn yn cael effaith niweidiol ar y ddarparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai, y buddsoddiad yn y stoc dai bresennol, chyflawni ein hymrwymiad i ddarparu tai newydd fforddiadwy a lleihau rhestrau aros a digartrefedd. Gallai hefyd arwain at fenthycia ychwanegol, a fydd yn ei dro yn cynyddu dyled mewn taliadau, ac yn y pen draw yn golygu y bydd yn rhaid i'r Cyngor adolygu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd."

Dywedodd dros 130 o denantiaid wrthym y byddent yn hapus i siarad mwy â ni am hyn; byddwn mewn cysylltiad yn ystod 2021. Os hoffech gymryd rhan, ffoniwch neu e-bostio y **Tîm Cyfranogiad Tenantiaid a'r Gymuned** ar **01443 811433** neu CyfranogiadTenantiaid@caerffili.gov.uk

A all ein Gwasanaeth Cymorth Tenantiaeth eich helpu?

Mae ein tîm o swyddogion Cymorth Tenantiaeth yn cynnig cyngor a chymorth un i un i bobl sy'n profi anawsterau ariannol.

Rydym yn deall bod COVID-19 wedi cael effaith ddifrifol ar fywydau llawer o denantiaid ac rydym yn gweithio'n galed i roi cymorth i'r bobl hynny yr effeithiwyd arnynt. Rydym yn cynnig help i chi wneud y gorau o'ch incwm, gan roi cyngor a chymorth gyda materion Credyd Cynhwysol, helpu gwneud cais am daliad tai disgresiwn, cyngor ar ynni, cymorth i leihau costau dŵr. Rydym hefyd yn gwneud atgyfeiriadau i helpu pobl i ddod o hyd i swydd neu gynyddu sgiliau a chynorthwyo gydag atebion ar gyfer dyled.

Os ydych chi'n denant i'r Cyngor ac os hoffech ragor o wybodaeth am y gwasanaeth Cymorth i Denantiaid gallwch ffonio **01443 866534** neu decstio **RENTHELP** i **81400**. Fel arall, e-bostiwch SwyddfaCymorthTenantiaeth@caerffili.gov.uk

Cyfranogiad Tenantiaid: Y Gorffennol, y Presennol a'r Dyfodol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd llawer o newidiadau yn y ffordd rydym yn cynnwys tenantiaid. Mae tenantiaid yn dal i fod wrth wraidd popeth a wnawn ond o ganlyniad i COVID-19, mae'r ffordd rydym yn gwneud pethau wedi newid. Ar ôl ychydig fisoedd daeth y cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn alwadau ffôn ac yna gyfarfodydd rhithwir gyda'u heriau unigryw eu hunain!

Diolch byth, rydym ni a'n tenant wirfoddolwyr wedi gallu addasu i'r byd rhithwir newydd ac rydym yn brysur yn croesawu'r ffordd wahanol hon o weithio. Felly, i'r presennol; rydym yn dal i gynnal ein Cyfnewidfa Gwybodaeth Tenantiaid bob 4 i 6 wythnos ar-lein drwy Microsoft Teams. Efallai eich bod hefyd wedi gweld neu gymryd rhan yn rhai o'n harolygon naill ai dros y ffôn, drwy e-fwletin neu gyfryngau cymdeithasol. Os felly, diolch yn fawr i chi am eich amser.

Mae ein Hadolygwyr Cadair Freichiau yn parhau i roi eu barn ar arddull a chynnwys y cylchlythyr hwn cyn i ni ei anfon at bob tenant, yn ogystal â rhoi adborth ar ddogfennau eraill pan fo angen. Rydym hefyd yn parhau i gynnig gwybodaeth, cystadlaethau a chyfleoedd cyfranogi drwy dudalennau Facebook a Twitter Cartrefi Caerffili.

Rhywbeth sydd wedi bod yn boblogaidd iawn gyda'n tenantiaid ers y pandemig yw'r e-bost wythnosol newydd ar Gyfranogiad Tenantiaid. Mae'n cynnig llawer o wybodaeth; yn amrywio o ble y gall tenantiaid ddod o hyd i gymorth, i'r hyn sy'n digwydd ym myd tai ac anturiaethau masgot ein tîm! Diddordeb? Beth am ymuno â llawer o denantiaid eraill a chofrestru ar gyfer yr e-bost wythnosol drwy gysylltu â ni drwy'r manylion isod.




Rydym hefyd wedi parhau i gynnal arolygon boddhad gyda thenantiaid sydd wedi cael cymorth gan ein swyddogion Cymorth Tenantiaeth. Gan edrych i'r dyfodol mae gennym nifer o brosiectau wedi'u cynllunio, gan gynnwys mwy o drafodaethau gyda thenantiaid ar yr adolygiad rhent a fforddiadwyedd, 'Senedd Ar-lein', arolygon boddhad tenantiaid â'r rhai sydd wedi cael cymorth gan ein Gwasanaeth Lles a grwpiau ffocws ar-lein. Rydym hefyd yn gobeithio y gallwn ailgychwyn rhai o'r prosiectau wyneb yn wyneb rydym wedi'u gohirio cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny.



Os hoffech gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau tai, cysylltwch â ni i gael gwybod rhagor drwy **01443 811434** - cyfranogiadtenantiaid@caerffili.gov.uk neu'r cyfryngau cymdeithasol.

Cysylltwch â ni

Er bod ein swyddfeydd yn parhau i fod ar gau i'r cyhoedd, mae llawer o ffyrdd y gallwch gysylltu â ni o hyd.



Swyddfa Tai Ardal Cwm Rhymni Uchaf:

Ffôn: **01443 873535**

E-bost: SDACwmRhymniUchaf@caerffili.gov.uk

Swyddfa Tai Ardal Cymoedd y Dwyrain:

Ffôn: **01495 235974**

E-bost: SDACwmDwyreiniol@caerffili.gov.uk

Swyddfa Tai Cymdogaeth Graig-y-rhaca:

Ffôn: **02920 853050**

E-bost: SDCGraig-y-rhaca@caerffili.gov.uk

Swyddfa Tai Cymdogaeth Parc Lansbury:

Ffôn: **02920 860917**

E-bost: SDCParcLansbury@caerffili.gov.uk

Rhoi gwybod am atgyweiriad:

Ffôn: **01443 864886**

E-bost: DLOPBE@caerffili.gov.uk

Tai Pobl Hŷn:

Ffôn: **01443 873552 / 873553**

E-bost: TaiPoblHyn@caerffili.gov.uk

Cymorth Hyblyg: Ffôn: **01443 811425**

E-bost: CymorthHyblyg@caerffili.gov.uk

Rhenti: Ffôn: **01443 811450**

neu tecstiwch **RENTHELP** i **81400**

E-bost: Rhenti@caerffili.gov.uk

Treth Gyngor: Ffôn: **01443 863002**

E-bost: TrethGyngor@caerffili.gov.uk

Budd-dal Tai: Ffôn: **01443 866567**

E-bost: Budd-daliadau@caerffili.gov.uk

Tîm Cyfranogiad Tenantiaid a'r Gymuned

Ffôn: **01443 811433 / 811434**

E-bost: CyfranogiadTenantiaid@caerffili.gov.uk

Diogelu'ch gwasanaeth gwresogi!

Mae gennym ddyletswydd gofal a chyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod yr holl bibellau nwy a thanwydd solet a systemau gwresogi mewn cyflwr diogel a'n bod yn eu gwasanaethu'n flynyddol i sicrhau hyn.



Yn ystod y pandemig COVID-19, rydym wedi parhau i wasanaethu systemau gwresogi nwy a thanwydd solet. Mae hwn yn ofyniad gorfodol ond mae hefyd yn hanfodol i sicrhau bod tenantiaid a'u teuluoedd, yn enwedig ein teuluoedd mwyaf agored i niwed, yn cael eu hamddiffyn rhag risgiau a allai fod yn angheuol, gan gynnwys carbon monocsid neu ffrwydradau nwy.

Rydym yn deall bod hwn yn gyfnod pryderus ac efallai eich bod yn pryderu am adael pobl i mewn i'ch cartref. Rydym am eich sicrhau bod pob cam wedi'i roi ar waith i'ch cadw'n ddiogel. Mae ein peirianwyr yn dilyn canllawiau a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru i sicrhau eu diogelwch eu hunain a'r aelwyddydd maent yn ymweld â nhw.

Mae sicrhau bod eich offer gwresogi yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol yn bwysig iawn i'ch diogelwch ond dylech helpu hefyd i sicrhau diogelwch ein peirianwyr drwy gysylltu â ni i aildrefnu eich apwyntiad os bydd unrhyw un yn eich cartref yn datblygu unrhyw symptomau'r coronafeirws neu wedi cael cyngor i hunanynysu.